**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LF/MD/0899/15

Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

23 Hydref 2015

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

Ysgrifennaf ar ôl mynychu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 21 Hydref pan gyflwynais dystiolaeth ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Addewais y byddwn yn darparu'r cyfeiriadau ar gyfer yr astudiaethau ymchwil a ddyfynnais yn ystod y sesiwn.

Dyma'r astudiaethau ymchwil, yr adroddiadau a'r erthyglau y cyfeiriais atynt yn ystod sesiwn y pwyllgor:

- Evidence About Electronic Cigarettes: A Foundation Built on Rock or Sand? gan Martin McKee a Simon Capewell, cyhoeddwyd yn y British Medical Journal ar 15 Medi 2015.
  - http://static.www.bmj.com/content/351/bmj.h4863

- A Smoking Gun: Cancer-causing Chemicals in E-cigarettes gan y Center for Environmental Health, cyhoeddwyd ar 2 Medi 2015.
  - http://www.ceh.org/wp-content/uploads/CEH-2015-report_A-Smoking-Gun_-Cancer-Causing-Chemicals-in-E-Cigarettes.pdf

- State Health Officer's Report on E-cigarettes: A Community Health Threat, cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015.
  - http://cdph.ca.gov/programs/tobacco/Documents/Media/State%20Health-e-cig%20report.pdf

Atodaf gopïau o'r tri phapur er hwylustod. Rwyf hefyd yn atodi copïau o nifer o sleidiau allan o'r cyflwyniad A Preliminary Investigation of the Consequences of Tobacco Company Involvement in the E-cigarette Industry gan Richard Edwards, Nethran Pathmanathan, Janet Hoek, Marisa De Andrade a George Thomson o brifysgolion Otago a Chaeredin i'r Gynhadledd ar Iechyd Poblogaethau yn Hobart ym mis Medi.

Mae'r pwyllgor wedi clywed gan ddadleuwyr dros e-sigaréts; mae'r dystiolaeth hon – sy'n cael ei hadlewyrchu yn y sleidiau hyn – yn dangos pa mor wahanol mae'r diwydiant tybaco'n gweithredu yn ymarferol. Roeddwn wedi gobeithio rhoi'r sleidiau hyn ichi yn ystod sesiwn y pwyllgor ond, yn anffodus, nid oedd amser. Os hoffech gopi o'r cyflwyniad llawn, rhowch wybod imi, os gwelwch yn dda.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn olaf, rwyf yn cynnwys copi o lythyr wedi'i lofnodi gan 129 o arbenigwyr iechyd y cyhoedd ac iechyd plant o bob cwr o'r byd at Sefydliad Iechyd y Byd, yn cefnogi ei gynigion ar gyfer rheoleiddio e-sigaréts. Roedd y rhain yn cynnwys argymhelliad y dylai gwledydd wneud defnyddio e-sigaréts yn gyson â defnyddio cynhyrchion tybaco. Mae'r llythyr ar gael yma hefyd: https://tobacco.ucsf.edu/sites/tobacco.ucsf.edu/files/u9/Chan-letter-June16%20PST%20FINAL%20with%20129%20sigs.pdf

Yn gywir



**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services